CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 16eg RHAGFYR 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. R G Parry (Is-Gadeirydd) Ms. N Dafydd, J E Lewis, G Jones, W R Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. Mrs. L Roberts (Cadeiryddes) J Evans.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

Is-Gadeirydd. Cyng R G Parry oedd yn cadeirio.

CAEL COFNODION 18ed TACHWEDD 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. D T Roberts eilo Cyng. R G Parry.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Parcio ym Modffordd.
Nid oes mwy o ddatblygiad. Y Cyngor Sir heb ddod yn ol gyda dyddiadau i gyfarfod ar yn safle. Penderfynwyd i`r Clerc ail anfon am ddyddiadau. Cyng Ms. N Dafydd i ymweld a`r Swyddfa i symud ymlaen.

Mynwent Gymunedol Bodffordd. Maes Parcio.
Daethpwyd y mater o ddefnyddio y Maes Parcio i fynnu oherwydd fod presennoldeb gwan yn y cyfarfod diwethaf (18ed Tachwedd) Nid ydyw cyflwr gwyneb y Maes Parcio yn dda, ac mae rhaid cymryd camau i lehau defnyddio.
Bydd y Maes Parcio ddim yn newid i ymwelwyr ac angladdau sydd yn gystylliedig ar Cyngor.
Mae ar gael i`r Eglwys pan fydd ganddynt angladdau (i`r elorgerbyd gael parcio) ac os bydd priodasau. Nid fydd ar gael ar gyfer unrhyw un arall.
Cynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. R R Roberts. (Unfrydol)

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. MIG/2025/1. Cais ar gyfer ymestyniad fertigol i chwarel wenithfaen bresennol i gynnwys dwy fonc ychwanegol i 10metr islaw AOD, a chydgrynhoi amodau cloddio am fwynau sydd ar waith yn y chwarel ehangach yn:-
Chwarel Gwyndy, Llandrygarn.
Cefnogaeth cryf. Maent yn gyflogwyr da.
Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. D T Roberts. (Nid oedd unrhyw wrthwynebiad)

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddfa Refeniw a Budd-daliadau - Mark Jones.
CP/Cynorthwydd Gweinyddol - Ella Jones.
Praeseptau Cynghorau Cymuned / Tref 2026/2027. Band D 417.58
Y Clerc wedi rhoi amcangyfrif i`r Cynghorwyr o beth oedd balans y flwyddyn Mawrth 2026 yn debygol o fod (£13,776.00) Arian y fynwent ddim yn hwn. Efallai bydd ambell beth yn codi ei ben ond ddim byd mawr. Mae cyflog y Clerc i godi 3.3% + Treth Incwm y flwyddyn ond nid fydd yn ymharu llawer ar cyfanswm. Torri y Fynwent Gymunedol yn aros fel ac y mae £1,000.00.
Posibilrwydd bydd Cynnal a Chadw. Fel rhoddwydd syniad ymlaen gan Cyng. J E Lewis llynnedd i rhoi arian tuag at Gysgodfan Bws newydd yn pentref Bodffordd cafwyd cefnogaeth ac fel y mae mae`r arian yna. Eleni codwyd hyn gan Cyng. J E Lewis. Mae Cysgodfan yn aruthrol o bris.
Mae adeliadau yn cymryd lle yn fuan ac bydd y Gysgodfan yn cael ei symud, felly cyfrifoldeb yr adeiladwr fydd os bydd niwed. Ar hyn o bryd felly anghofio am rhoi arian ychwanegol o`r neulltu.
Y Clerc yn dweud nad oedd yn gweld fod angen cynyddu mwy, efallai byddai ceisiadau am rhoddion, ond dim byd mawr. Y Cyngor yn derbyn yr adroddiad.
Trwy gynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. W R Parry pasiwyd i adael yr un fath am flwyddyn arall £15,000.00. Nid oedd unrhyw gynnig arall.
Y Clerc a`r Cadeirydd i arwyddo y ffurflen i`w hanfon i`r Cyngor Sir.

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.
Mae y cyfarfod 15ed Rhagfyr wedi ei ganslo, y rheswm am hyn oedd prinder eitemau. Bydd y cyfarfod nesaf felly yn cymryd lle ar 4ydd Chwefror 2026 am 6.30yh.
Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth gan fawr obeithio bydd digon o eitemau. Cyng. J E Lewis fydd yn mynychu ar rhan y Cyngor.

5. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Diweddar. Trefor Lloyd Hughes. MBE. (Trefor Cae`r Meirch)
Talwyd teyrnged twymgalon iddo. Colled o Gynghorydd uchel ei barch, un o hoelion wyth Pel Droed Cymru. Aelod o Ward Cybi yn 1995, ail dro yn 2008 hyd ei farwolaeth 13ain Tachwedd 2025. Ei wasanaeth fel Cadeirydd y Cyngor Sir a Chadeirydd Ymddiriedolaeth Elusenol Môn.
O wirfoddolwr 15 oed gyda tim pentref Lleol Bodedern i rol nodedig Llywydd Cymdeithas Bel Droed Cymru, Ysgrifennydd Cynghair Ynys Mon, Cynghair Cymru (Welsh Alliance), Cymdeithas Pel Droed Arfordir Gogledd Cymru, yn ddiweddaraf cynrychioli ardal Pel Droed Arfordir Gogledd Cymru ar Gyngor Cymdeithas Pel Droed Cymru (FAW). Bydd fraint iddo cael yr MBE yn 2016 am ei wasanaeth teilwng i Bel Droed.
Yr oedd Trefor yn gymeriad hynod ac yn ddyn Pel Droed go iawn, fe adawodd ei farc ar y llwyfan Genedlaethol s Rhyngwladol. Bydd ei farwolaeth yn golled sylweddol, mwyaf i`w deulu a`i ffrindiau, ond hefyd i Gaergybi, Ynys Môn a Chymru gyfan. Gwr bonheddig yn gyn-yrrwr Ambiwlans. Cynrychioli Ward Maeshyfryd, ac wedi gwasanaethu fel Maer y Dref yn flaenorol. Bu yn aelod o Gyngor Bwrddeistref Môn yn y 1990au cynnar.
Y Cyngor yn derbyn y deyrnged ac yn ddiolchar am ei wasanaeth ymledol.

6. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
Môn Actif ar llwybr cywir i geisio sicrhau Ynys Môn lachach.
Cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau lledled yr Ynys.
Chanolfannau Hamdden cofnodwyd dros 300,000 o ymwedliadau rhwng Ebrill a Hydref 2025.

Digwyddiadau alltweddol yn cynnwys:-
Gwersylloedd chwaraeon gwyliau ysgol, cymunedol a diwrnodau Hwyl i`r Teulu - yn cynnwys cannoedd o becynnau bwyda a chefnogaeth i blant ar draws yr Ynys.
Asedau newydd yn Llannerch-y-medd a Parc Lôn Las.
Prosiectau mewn partneriaeth a Chyngor Tref Caergybi. Adfer trac beics a diolch am £22,000 gan Gogledd Cymru Actif a Chyngor Môn.
Rhaglen diogelwch dwr Cymunedol a Chynllun Ysgol Swim Safe.
Y Cyngor yn cymeradwydo y wybodaeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.
Cyfarfod Cyffredinol Un Llais Cymru 21ain Ionawr 2026.
Rhwng 6yh a 8yh. Zoom.
Un Cynghorydd o bob Cyngor all fynychu y cyfarfod.
Gyrrwyd y manylion ymalen i bob Cynghorydd i`w dreulio ond nid oedd cymerwyr.
Felly y Cyngor yn derbyn ac yn gadael.

8. Un Llais Cymru - Wendi Patience
Dyddiadau Hyfforddiant Rhagfyr 2025 - Mawrth 2026.
Anfonodd y Clerc Dyddiadau yr Hyfforddiant ar Modiwls iddynt gael edrych trwyddynt.
Trwy ofyn pwy oedd am fynd bod y drws yn agored.
Ni chafwyd neb yn barod i fynychu er bod y Cyngor yn annog iddynt fynd.
Efallai bydd rhyw ddiddordeb erbyn cyfarfod mis Ionawr 2026. Y Cyngor fydd yn talu.

RHODDION.

9. Neuadd Goffa Bodwrog.
Derbyniwyd e-bost gan Ysgrifenyddes y Neuadd Cenin Thomas yn gofyn am arian tuag at waith sydd i`w wneud (tô y Neuadd) Cafwyd trafodaeth trwy gynnig Cyng. G Jones, eilo Cyng. J E Lewis pasiwyd i gael Mantolen Ariannol Chyfoes cyn rhoi unrhyw ymateb i`r cais. Busnes i`w wedyn mae yn orfodol cael Mantolen. (Nid oedd unrhyw gynnig arall) Unfrydol.
Cafwyd cais am arian yn Hydref 2024 a gofynwyd am Fantolen Ariannol yr adeg hynnu, ond ni chafwyd ymateb.

PLWYFOL.

10. Mrs J Parrot (Ficerdy Bodwrog)
Pryder o dramwy trwm yn taro cerrig i`r lon o wal y Ficerdy tuag at Siop Uchaf ym mhentref Glanrafon. Mae wedi bod yn broblem mawr ers blynyddoedd gyda lorriau anferth yn cario o Chwarel Gwyndy. (Er nid oes sôn am ddamweiniau yma) Mae hi wedi cysylltu a`r Cyngor Sir i ddatgan ei phryder ac yn barod i rhoi ychydig o dir i`w lledu. Ond yn anffodus nid oes arian gan y Cyngor Sir i fedru gwenud y gwaith nawr £60 i £70 mil. Mae Mrs Parrot wedi bod mewn cysylltiad a`r Cynghorydd Sirol Ms. N Dafydd trwy e-bost. Ac mae`r Clerc wedi siarad a hi ar y ffon.
Dywedodd y Clerc bod cynllun wedi bod or blaen (Flynyddoedd yn ol) i wneud By Pass o`r Ficerdy trwy Maes Llan Bach ty ol i`r Tai Newydd a dod allan yn Gongl Gam. Syrthio drywodd wnaeth am fod Maes Llan Bach yn gwrthod rhoi na gwerthu tir, er fod y Ficerdy yn barod i rhoi tir am ddim yr adeg hynnu.
Trafodwyd ar ol gweld y ffeithiau ac efalli ar hyn o bryd y peth gorau i wneud fuasai cael arwyddbost wrth y Ficerdy a`r llall yn Gongl Gam Lon Culhau (Road Narrows.) Mae y Cyngor Sir wedi crybwll hyn

a rhoi un wrth y Ficerdy ond dim yn gweld lle i rhoi yn y pen arall.
Y Cyng. Ms N Dafydd a`r Clerc i gysylltu ac Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

11. Adolygu Cyflog y Clerc.
Trwy gynnig Cyng. W R Parry, eilio Cyng. G Jones pasiwyd i rhoi codiad cyflog o 3.3% yn cynyddu y cyflog i £6,204.84 + Treth Incwm. (Misol £517.07 + Treth Incwm.) Yn cychwyn ym mis Ebrill 2026. (Unfrydol)

12. Torri Fynwent Gymunedol.
Ni fydd cynyddiad yn gost torri y glaswellt yn y Fynwent y Tymor nesaf Ebrill i Hydref 2026. £1,000.00. Y Cyngor yn derbyn Cynnig Cyng. J E Lewis, eilio Cyng. R R Roberts. (Unfrydol)

13. Codwyd gan Cyng,. G Jones fod dwr yn dod i fynnu wrth polyn ffon ger 8 Bron Heulog, Bodffordd. Y Cyngor i gysylltu a`r Cyngor Sir.

14. Codwyd gan Cyng. G Jones fod ffens wedi ei rhoi o gwmpas Cae Chwarae yr Ysgol ym Modffordd. Felly mae plant y pentref yn methu mynd yno i chwarae Pel Droed na unrhyw Sbort arall. Pryderus ydyw fod y plant yn awr yn chwarae yn y lon ac yn ofni am ddamweiniau. Fel dywedodd fod Mr Wyn Gadlys wedi rhoi y Cae i Blant y Pentref i chwarae. Y Cyng. Mrs N Dafydd i gysylltu ac Adran Addysg y Cyngor Sir a`r Clerc i anfon i Gadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol.

15. Rhaglen Cyfarfod nesaf Marathon Môn.

16. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.
Derbyniwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Diolchwyd iddi.

MATERION ARIANNOL.

17. Cyfrif Rhedegol. £23,449.43.

Arian Mynwent Gymunedol Bodffordd £10,010.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

18. Clerc £500.55. Treth Incwm 3 (3 mis) £375.41. Gweinyddu 3 (3 mis) £203.21.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. G Jones.

D Owen (Clerc)